MAI 2025

YSGOL DYFFRYN DULAS

# LLEISIAU DYFFRYN DULAS

## GWERSYLL GLANLLYN

Cafodd holl ddisgyblion Blwyddyn 3, 4, 5 a 6 amser gwych yn cymryd rhan mewn amrywiol weithgareddau yng Ngwersyll Glanllyn yn ystod wythnos gynta mis Mai.















# CELF A CHREFFT YR URDD

Llongyfarchiadau i'r disgyblion ar eu llwyddiant yng nghystadlaethau Celf a Chrefft yr Urdd Rhanbarth Meirionnydd.
Cynhaliwyd y Noson Wobrwyo yng Nglanllyn, Llongyfarchiadau.

Llun 2D Blwyddyn 3 a 4
1af Anya Crockford

Creadigol 2D Bl2 ac iau
3ydd Gruff Jones

Graffeg Cyfrifiadurol Bl2 ac iau
1af Gruff Jones
2il Elsie Eyles












# DIOGELWCH Y FFORDD

‘Daeth Anti Shirley ac Anti Manon i ddysgu ni sut i groesi’r ffordd yn ofalus yn ein siacedi lliwgar. Roedd rhaid

- edrych i’r dde, i’r chwith ac eto i’r dde cyn croesi
- cadw traed tu ol y cyrb
- dim rhedeg

Roedd pawb yn gwrando ar stori Carys Ofalus.
Ysgrifennwyd gan Elsie gyda chymorth Grace








# ARCHIF GWYNEDD



Diolch i Mr Gwyn Ellis, Swyddog Addysg Archifau Gwynedd am ymweld a'r ddau ddosbarth i ddangos arteffactau ers talwm. Roedd Mr Ellis wedi paratoi pwerbwynt diddorol iawn o hanes ysgolion yr ardal ers talwm a rydym yn ddiolchgar iawn iddo am sgwrs ddifyr iawn.



# GWAITH COED



Mae disgyblion dosbarth 3-7 oed wedi bod yn brysur iawn yn ddiweddar yn gwneud tasgau gwaith coed yn y dosbarth ac yn yr ardal allanol. Rydym yn astudio'r ardal leol a gan bod Rheilffordd Corris yn bwysig i ni gan ei fod mor agos i'r ysgol, rydym wedi bod yn adeiladu trenau bach. Diolch i Ffrindiau'r Ysgol am godi arian i brynu'r adnoddau gwerthfawr a grantiau diweddar.

# YMWELD AG AMGUEDDFA LLOYD GEORGE



Aethom i Amgueddfa Lloyd George.
Gwelsom y tŷ ble cafodd ei eni. Roedd y toiled tu allan ac yn bell o'r tŷ! Dysgom sut oedd pobl oes Fictoria yn golchi dillad. Roedd y merched yn golchi'r dillad bob dydd Llun mewn twb ac yna ei sgwrio ar bwrdd sgwirio. A'u sychu mewn mangl. Yn y ty sylwom nad oedd cegin nac ystafell ymolchi. Roedd yn rhaid coginio wrth y tan. Doedd dim tap ychwaith, roedd rhaid mynd i'r afon i nol y dwr a'i gynhesu ar y tan i gael bath yng nghanol yr ystafell fyw!
Roedd yna ystafell orau o'r enw Parlwr hefyd.
I fyny'r grisiau roedd dwy ystafell wely, roedd rhaid i'r plant rannu gwely. Gwelsom hen botel dwr poeth a pot pi pi!! Roedd yn ddiddorol dysgu sut oedd pobl yn byw ers talwm.



Yna aethom i'r Ysgol. Cafodd pawb wisgo gwisg Fictorianaidd. Roedd yn rhaid eistedd ar feinciau pren caled, roedd merched un ochr a bechgyn ochr arall. Roeddem yn ysgrifennu gyda llechen a pensil llechen. Roedd rhai yn gwneud swn aflafar annifyr. Rodd yn rhaid i blant oedd yn ysgrifennu gyda llaw chwith ysgrifennu gyda llaw dde.
Ar y bwrdd du roedd y frawddeg 'Children should be seen but not heard'.
Hefyd oedd rhai wedi cael y Welsh Not am siarad Cymraeg.
Roeddem wedi mwynhau, ond roedd ysgolion yn llym iawn ers talwm, mae ysgol heddiw llawer gwell!
Anya ac Otis










MAI 2025

# LLEISIAU DYFFRYN DULAS

## NOSON BINGO SGLOD A 'SGOD



Cawsom Noson Sglod a 'Sgod llwyddiannus eto leni. Diolch i Ffrindiau'r Ysgol am drefnu ac am godi £230 i brynu offer newydd i'r ysgol. Rydym yn ddiolchgar iawn.



## TIM Y CHWARELWYR




Llongyfarchiadau mawr i dim y Chwarelwyr ar ei llwyddiant diweddar yn ennill cwpan y gynghrair. Rydym yn falch iawn o'ch llwyddiant.



